**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Dr Dai Lloyd AC,
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

7 Chwefror 2019

**Gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth**

Annwyl Dai,

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru yr adroddiad uchod ar 22 Ionawr 2019. Canfu'r adroddiad mai £135.7 miliwn oedd gwariant y GIG ar staff asiantaeth yng Nghymru yn 2017-18, sef cynnydd o 171 y cant er 2010-11, gyda gwariant yn cyrraedd £164.4 miliwn yn 2016-17.

Mae'r adroddiad yn nodi bod bron i hanner y gwariant ar staff asiantaeth yn mynd tuag at staff meddygol a deintyddol a thraean arall yn cael ei wario ar nyrsys a bydwragedd. Mae cyrff iechyd yn nodi bod oddeutu 80 y cant o wariant ar staff asiantaeth yn cael ei wneud er mwyn llenwi swyddi gwag dros dro.

Mae'r adroddiad yn cynnwys ffeithiau yn unig; nid yw'n gwneud unrhyw argymhellion penodol. Fodd bynnag, mae'n nodi sawl her o ran gwella'r ffordd y caiff gwariant ar staff asiantaeth ei reoli.

Trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2019, gan drafod a oedd am gynnal ei waith ei hun yn y maes hwn. Roedd hyn yn cynnwys ystyried unrhyw waith cysylltiedig a wneir gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (y Pwyllgor Iechyd) er mwyn osgoi dyblygu gwaith.

Nodwn fod y Pwyllgor Iechyd wedi cynnal ymchwiliad penodol i recriwtio meddygol a deallwn fod y Pwyllgor wedi cytuno ar raglen i graffu ar bob Bwrdd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Iechyd a phob Ymddiriedolaeth dros y 12 mis nesaf ac y bydd y gwaith hwn yn cynnwys costau asiantaeth. Rydym yn rhagweld y bydd y Pwyllgor Iechyd, yn ystod y gwaith craffu, yn ymchwilio i sut y mae'r Byrddau Iechyd yn ymateb i anghenion uniongyrchol a phwysau ariannol tra byddant yn addasu i ddarparu modelau gofal y dyfodol a amlinellir yn 'Cymru Iachach'. Rhagwelwn y gall hyn amlygu pa mor ddibynnol y mae rhai Byrddau Iechyd ar staff asiantaeth. Rydym yn ymwybodol bod defnyddio staff asiantaeth a staff cronfa yn rhywbeth sy'n digwydd yn rheolaidd yn y Byrddau Iechyd wrth iddynt gynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf.

Deallwn i'r Pwyllgor Iechyd gynnal sesiwn dystiolaeth yn ddiweddar gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru, a bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r rhain gydweithio i gynhyrchu strategaeth gweithlu erbyn diwedd 2019. Credwn ei bod yn fwriad gan y Pwyllgor Iechyd wneud gwaith dilynol i'r gwaith hwn yn yr hydref, gan edrych ar sut y maent yn gweithio i fynd i'r afael â materion gweithlu ledled y system, gan gynnwys dibynnu ar staff asiantaeth, yn ogystal â sut y maent yn helpu i wella cynllunio gweithlu.

Cyn inni ddod i benderfyniad terfynol ynghylch y materion hyn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried a fyddai'r canfyddiadau yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn fater y gallai eich Pwyllgor ei drafod fel rhan o'i raglen waith sydd ar ddod.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**